Mythau Iechyd a Diogelwch Mawr

Y myth Nid oes angen i chi ddiogelu eich llwyth os ydych ond yn gyrru i lawr y ffordd

Y gwirionedd Os na chânt eu diogelu'n gywir, gall llwythi ar gerbydau fod yn beryglus, hyd yn oed dros bellter byr.

Os na chaiff llwythi eu clymu'n dynn, mae mwy o risg y bydd yr hyn a gludir yn disgyn neu'n gollwng. Maent yn peryglu bywydau gyrwyr a defnyddwyr eraill ar y ffordd a gallant darfu'n ddiangen ar draffig.

Caiff dros 1200 o bobl eu hanafu bob blwyddyn o ganlyniad i lwythi anniogel, a chaiff miliynau o bunnoedd eu colli yn sgîl nwyddau wedi'u difrodi.

Peidiwch â mentro – sicrhewch fod eich llwyth wedi'i glymu'n dynn!